# Cystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2026

| | Cystadleuaeth | Testun a nodiadau | Gwobr |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhyddiaith blwyddyn 2 i 4 | Gwyliau | £5 |
| 2 | Rhyddiaith blwyddyn 5 i 6 | Perthyn | £5 |
| 3 | Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9 | Tymor | £10 |
| 4 | Rhyddiaith blwyddyn 10 i 13 | Cyfoeth | £10 |
| 5 | Y Fedal Ryddiaith | Mur/Muriau. Darn o ryddiaith heb fod dros 2,000 o eiriau. Cystadleuaeth agored i bawb. | Medal a £50 |
| 6 | Llên meicro | Cyfle. Darn neu gasgliad o lên meirco heb fod yn fwy na 500 gair. | £10 |
| 7 | Adolygiad | Adolygiad o unrhyw gyfrol Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2025 heb fod dros 1,000 o eiriau | £10 |
| 8 | Rhyddiaith y dysgwyr | Taith | £10 |
| 9 | Barddoniaeth blwyddyn 2 i 4 | Y Parc | £5 |
| 10 | Barddoniaeth blwyddyn 5 i 6 | Y diwrnod mawr | £5 |
| 11 | Barddoniaeth blwyddyn 7 i 9 | Breuddwyd | £10 |
| 12 | Barddoniaeth blwyddyn 10 i 13 | Sŵn | £10 |
| 13 | Y Gadair | Cerdd neu ddilyniant o gerddi caeth neu rydd heb fod dros 75 o linellau ar y testun ‘Egin/ Egino’. | Cadair a £50 |
| 14 | Englyn ysgafn | Triban sy’n cynnwys unrhyw enw lle o fewn Dinas a sir Caerdydd. | £10 |
| 15 | Englyn | Cyllell | £10 |
| 16 | Cerdd rydd | Stori | £20 |
| 17 | Cerdd heb fod dros 20 llinell ar unrhyw fesur caeth | Adenydd | £20 |
| 18 | Cyfansoddi geiriau emyn | Adenydd | £10 |
| 19 | Barddoniaeth y dysgwyr | Llwybr | £10 |
| 20 | Tlws yr Ifanc | Gwaith llenyddol. Cerdd gaeth neu rydd neu’n ddarn o ryddiaith, ar y testun ‘Addewid’. Yn agored i unigolion 25 oed ac iau yn unig. | Tlws a £50 |
| 25 | Ffotograffiaeth cynradd | Dathlu | £5 |
| 26 | Ffotograffiaeth uwchradd | Dathlu | £10 |
| 27 | Ffotograffiaeth agored | Dathlu | £15 |

Beirniaid:

- Gwennan Evans, rhyddiaith
- Gruffudd Owen, barddoniaeth
- Irfon Bennet, ffotograffiaeth

Mae'r rheolau llawn ar wefan Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd.

Rhaid i geisiadau cystadlaethau gwaith cartref gyrraedd erbyn dydd Sul 4 Ionawr 2026.

Dylech gyflwyno eich ceisiadau yn electronig drwy'r porthol cystadlu.

Mae croeso i chi gystadlu hyd at ddwy waith ym mhob cystadleuaeth. Mae'n rhaid cyflwyno pob ymgais ar wahân o dan ffugenw gwahanol bob tro.

Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.

Yn dilyn yr eisteddfod byddwn yn cyhoeddi y darnau buddugol yn y Dinesydd. Os nad ydych am i'ch cais gael ei gynnwys, os ydych yn fuddugol, rhaid i chi roi gwybod i ni pan fyddwch yn cyflwyno'r cais.

Mae croeso i athrawon anfon ceisiadau disgyblion i gyd gyda'i gilydd. Os byddwch yn bwriadu gwneud hyn, cysylltwch â ni ymlaen llaw drwy e-bostio cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru.